Hawdd ei Ddeall

# Am y Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig Cymru

## Arian i helpu pobl anabl i sefyll am etholiad yng Nghymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Anabledd Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Mynediad i gronfa Mynediad i Swydd Etholedig'.**

**Chwefror 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall, ond efallai y byddwch chi angen cymorth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n eu hadnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl wedi cael ei ysgrifennu mewn blwch o dan y gair. Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifen glas normal.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Anabledd Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Ffôn:** 029 2088 7325

**E-bost:** info@disabilitywales.org

Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cronfa Mynediad i Swydd Etholiadol Cymru



Mae **Llywodraeth Cymru** yn dechrau'r **Gronfa Mynediad i Swydd Etholiadol** i helpu pobl anabl i sefyll am **etholiad**.



**Etholiad** ydy pan mae pawb yn pleidleisio'r i'r person maen nhw eisiau i'w cynrychioli nhw.




Mae'r **Gronfa Mynediad i Swydd Etholiadol** yn gallu cael ei defnyddio i dalu am bethau sydd yn helpu pobl anabl i gael cyfle cyfartal. Er enghraifft, offer arbennig a chyfrifiaduron.



Mae Llywodraeth Cymru eisiau i'r gronfa yma gael ei defnyddio ar gyfer:

- etholiad **Senedd Cymru** yn **Mai 2021**



- ac etholiadau **Llywodraeth Leol** yn **Mai 2022.**

Fe fydd **Anabledd Dysgu** yn rheoli'r Gronfa **Mynediad i Swydd Etholedig**. Fe fydd yn:



- dweud wrth bobl am y gronfa



- rhoi cyngor i bobl am y gronfa a sut i wneud cais

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais am y gronfa?

**Rydych chi'n gallu gwneud cais os:**



- ydych chi'n **gymwys** i fod yn **ymgeisydd** yn etholiad **Senedd Cymru 2021**



**Cymwys** ydy bod gennych chi hawl i wneud rhywbeth, ac yn gallu gwneud rhywbeth, oherwydd eich bod chi'n ateb rhestr o feini prawf.



**Ymgeisydd** ydy person sydd yn rhoi eu henw ymlaen ac yn gofyn i bobl bleidleisio iddyn nhw mewn etholiad.



- rydych chi wedi dweud wrth y cyhoedd eich bod chi'n rhoi eich hun ymlaen fel ymgeisydd.




Er enghraifft, mae eich plaid wleidyddol yn gallu ysgrifennu ar y cyfryngau cymdeithasol yn dweud eu bod nhw wedi eich dewis chi fel eu hymgeisydd. Neu rydych chi'n gallu gwneud cyfweliad mewn papur newydd lleol i ddweud eich bod chi'n ymgeisydd.



- rydych chi'n anabl



- rydych chi'n sefyll am etholiad i **blaid wleidyddol** neu yn **annibynnol**



Mae rhai ymgeiswyr yn aelod o blaid wleidyddol, er enghraifft y Blaid Lafur neu'r Blaid Werdd.



Mae ymgeiswyr eraill yn **annibynnol** – mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw'n rhan o blaid wleidyddol.

## Am beth rydych chi’n gallu defnyddio’r gronfa

**Rydych chi’n gallu defnyddio’r gronfa i dalu am bethau fel:**



- trafnidiaeth, os nad ydych chi’n gallu defnyddio trafnidiaeth cyhoeddus fel bysus a threnau



- meddalwedd darllen sgrin ac offer cyfrifiadur arall




- hyfforddiant i ddefnyddio offer cyfrifiadur a meddalwedd arall



- Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydeinig a gwybodaeth mewn Braille, Hawdd ei Ddeall a sain.



- Cymorth personol

# Sut i wneud cais




Rhaid i chi edrych ar wefan y **Comisiwn Etholiadol** www.electoralcommission.org.uk i weld os ydych chi'n gymwys i sefyll yn yr etholiad.

Y Comisiwn Etholiadol

Y **Comisiwn Etholiadol** ydy'r corff sydd yn gwneud yn siŵr bod etholiadau yn deg. Maen nhw'n edrych i weld nad ydy ymgeiswyr yn gwario gormod ar eu hymgyrchoedd etholiad.



Os ydych chi'n gymwys i sefyll yn yr etholiad fe ddylech chi gysylltu ag **Anabledd Cymru**.



Rhaid i chi gysylltu â ni mor gynnar â phosibl i wneud yn siŵr eich bod chi'n cael y cymorth rydych chi angen mewn pryd.



Ar ôl i chi gysylltu â ni fe fyddwn ni'n trefnu amser i siarad am eich cais, Fe fyddwn ni'n siarad am eich anghenion cefnogi ac yn rhoi cyngor i chi




Rydych chi’n gallu cadw gwybodaeth fel derbynebau i ddangos faint rydych chi’n ei wario ar bethau fel teithio ac anghenion eraill. Mae hyn yn gallu helpu eich cais.




Os ydych chi eisiau sefyll yn etholiad **Senedd Cymru 2021** fe ddylech chi wneud cais i’r gronfa yma cyn **5 Mawrth 2021**.



Dim ond pobl sydd yn gwneud cais yn hwyr am resymau arbennig y byddwn ni’n eu derbyn. Er enghraifft os ydych chi’n cymryd lle rhywun arall sydd wedi sefyll i lawr a doeddech chi ddim wedi gallu gwneud cais yn gynharach.

# Sut byddwn ni'n gwneud ein penderfyniad




Fe fyddwn ni'n meddwl am ba fath o gymorth rydych chi ei angen, a faint o arian rydych chi ei angen.



Fe fyddwn ni'n rhoi'r wybodaeth yma gyda'i gilydd mewn dogfen.



Fe fydd rhaid i chi ddweud wrthyn ni os ydych chi'n cytuno â'r ddogfen.



Fe fyddwn ni'n rhoi'r ddogfen i'r **Bwrdd Gwneud Penderfyniad**. Fydd y ddogfen ddim yn dweud pwy ydych chi.



Fe fydd gan y bobl ar y **Bwrdd Gwneud Penderfyniad** wybodaeth a phrofiadau gwahanol.



Fe fyddan nhw'n edrych i weld eich bod chi'n gymwys i wneud cais i'r gronfa yma.



Os ydyn ni'n penderfynu rhoi arian i chi fe fyddwn ni'n anfon:

- llythyr dyfarnu atoch chi
- copi o'n telerau ac amodau.



Llofnodwch y telerau ac amodau a'i anfon yn ôl aton ni.



Os ydyn ni'n penderfynu peidio eich cefnogi gydag arian o'r gronfa yma fe fyddwn ni'n ysgrifennu atoch chi i ddweud pam.

**Os oes gennych chi gwestiwn rydych chi'n gallu cysylltu â ni ar:**



**Ffôn:** 029 2088 7325



**E-bost:** info@disabilitywales.org